

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 5 Chwefror 3, 2022 50c.

Tair her blwyddyn newydd

Yn dilyn ymadawiad Amanda Mukwashi, penodwyd Patrick Watt yn bennaeth dros dro ar Gymorth Cristnogol. Dyma'i neges i'r mudiad ar ddechrau blwyddyn newydd.

Mae blwyddyn newydd yn ein gwahodd i edrych yn ôl yn ogystal ag ymlaen. Fel nifer o bobl, rwyf wedi cael fy hun yr wythnos hon yn myfyrio ar yr hyn sydd wedi newid dros y 12 mis diwethaf. Flwyddyn yn ôl, roedd y Deyrnas Gyfunol yn paratoi at drydydd clo mawr a'r holl effaith gâi hynny ar fywyd bob dydd. Mewn sawl ffordd, mae'r sefyllfa erbyn hyn wedi ei thrawsnewid gan frechlyn Covid. Ac eto, mewn nifer o



Amanda Mukwashi



Patrick Watt

ffyrdd eraill, mae dechrau 2022 yn teimlo'n llawer rhy debyg i ddechrau 2021. Mae tair her fawr – Covid, gwrthdaro a'r hinsawdd – yn parhau i siapio dyfodol biliwn o bobl sy'n byw mewn tloedi, a'r byd yn ehangach.

Argyfyngau

Y tu hwnt i'r effaith uniongyrchol ar fywyd dynol, mae'r pandemig yn cael effaith fawr iawn ar economi'r gwledydd tlotaf ac mae'n bygwith adferiad sydd eisoes yn fregus. Er y camau bach ond pwysig a gymerwyd yn COP26, mae'r argyfwng hinsawdd, yn parhau i ddifrodi presennol miliynau o bobl fregus, ac yn taflu ei gysgod trwm dros ein dyfodol cyffredin. Yn y cyfamser, mae gwrthdaro treisgar o Affganistan i Ethiopia, ac o'r Sahel i Myanmar, yn dwysáu newyn a thloedi ac yn dyfnhau rhwygiadau chwerw. Yn Affganistan yn unig, amcangyfrifir bod dros wyth miliwn o bobl ar ymyl dibyn newyn.

Ymroddiad

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae trigolion gwledydd Prydain wedi dangos eu consŷrn a'u hymroddiad. Maent wedi ymgyrchu dros gydraddoldeb brechlynnau yn y G7 yng Nghernyw, am gyfiawnder hinsawdd yn Glasgow, ac yn ddiweddar wedi codi £26 miliwn tuag at apêl DEC dros Affganistan. Dylai'r gweithredu hwn roi gobaith inni wrth inni ddechrau blwyddyn newydd. Maent hefyd yn arwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn San Steffan fod yna awydd ymhlith y cyhoedd i weld y Llywodraeth yn chwarae rhan weithredol wrth fynd i'r afael â'r heriau mawr hyn, gan 'godi'r gwastad' dramor yn ogystal â gartref.

parhad ar dudalen 2

Tirlithriad yn Akany Avoko Faravohitra

O ganlyniad i law mawr a llifogydd ym mhrifddinas Madagascar, Antananarivo, fe'n syfrdanwyd yn fawr o glywed bod tirlithriad mawr wedi digwydd yn ddiweddar yn Akany Avoko Faravohitra, y ganolfan ar gyfer menywod ifanc a gefnogir gan UAC a MfM.

Mae'r ganolfan yn darparu lloches ddiogel ar gyfer merched a menywod ifanc a brofodd galedu ofnadwy yn ystod eu bywydau ifainc.

Gyda chefnogaeth gan roddwyr fel UAC a MfM, mae AAF yn gweithio gyda'r merched i gael mynediad at addysg a hyfforddiant ac i ailadeiladu eu bywydau.

Y mae **ymdrech frys** yn mynd rhagddi i wneud gwaith atgyweirio hanfodol i fur cynhaliol y ganolfan ac i atgyfnerthu amddiffynfeydd, er mwyn atal rhagor o ddifrod a llifogydd.

Y mae diogelwch 80 o ferched sy'n galw AAF yn gartref iddynt yn hanfodol bwysig. Bydd yn costio £2,000 i ailadeiladu'r mur cynhaliol ac i wneud y safle'n ddiogel unwaith yn rhagor.

Croesewir unrhyw gyfraniadau o unrhyw faint yn frwd iawn, wrth i ni weithio i gefnogi'n partneriaid yn AAF ar yr adeg argyfyngus hon.

<https://moneyformadagascar.org/donate/>



T. Meirion Sewell

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y Parch. Meirion Sewell. Cydymdeimlwn gyda'i deulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth. Bu ef yn weinidog i'r Arglwydd yn Myddfai a Bwlch y Rhiw; Rhyd-ybont; Capel Iwan; Gibeon, Taibach a'r Tabernacl Newydd, Port Talbot; Gibeon, Brynmanan a Bethania Rhosaman; y Tabernacl, Porthcawl; Rama a Phen-y-graig. Bydd teyrnged iddo yn ymddangos yn *Y Tyst* yn fuan.



Tair her blwyddyn newydd – parhad

Nod 2022

Yn yr ysbryd hwnnw, dyma fap Cymorth Cristnogol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod, fel y gallwn farnu gweithredoedd y llywodraeth ar dlodi byd-eang dros y flwyddyn.

Ar yr argyfwng hinsawdd, rhaid i wledydd cyfoethog weithredu ar yr addewid a wnaed yn Glasgow i ddyblu'r arian sydd ei angen i addasu i gynhesu byd-eang. Y tu hwnt i addasu, rhaid iddynt sicrhau adnoddau i'r gwledydd tlotaf i ddygymod â'r golled a'r difrod parhaol sy'n deillio o'r argyfwng hinsawdd, llawer ohono na ellid yswirio yn ei erbyn ac sydd wedi ei achosi gan allyriadau carbon y gwledydd cyfoethog.

Lle mae'r pandemig yn y cwestiwn, mae angen onestrwydd gan y gwledydd cyfoethog yn dilyn blwyddyn o neidio'r ciw a chronni brechlynnau.

Mae'r methiant i sicrhau'r brechlyn

yn fyd-eang yn golygu bod pobl yn marw ac yn creu'r amodau lle gall amrywiolion eraill yn ymddangos. Yn wir, hyd yma mae'r Deyrnas Gyfunol wedi rhannu llai na dwy ran o dair o'r 100 miliwn dogn a addawyd i wledydd tlawd.

Cadw addewid

Rhaid i'r Deyrnas Gyfunol gadw ei haddewid, ond rhaid iddi hefyd fynd ymhellach na hynny er mwyn cynyddu'r cynhyrchu a'r dosbarthu mewn gwledydd lle mae tan-frechu, drwy gefnogi'r alwad i ryddhau hawliau ar y dechnoleg. Yn ogystal, mae angen pecyn cyffredinol i ddileu dyledion, er mwyn galluogi buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd.

Affganistan

Yn olaf, gyda newyn ac angen dyngarol yn cynyddu, rhaid i'r llywodraeth

wrthdroi'r toriadau mewn arian cymorth a symud y rhwystrau sy'n atal cymorth fyddai'n achub bywydau yn Affganistan. Mae'r penderfyniad i rewi asedau Affganistan a chronfeydd rhyngwladol, yn ogystal â'r bygythiad gan y sancsiynau yn erbyn y Taliban, wedi achosi anhrefn i sector bancio'r wlad ac wedi arafu llif y cymorth. Ar adeg pan mae teuluoedd yn Affganistan yn dioddef i'r graddau eu bod yn gorfoddi eu merched i briodi'n ifanc er mwyn gallu prynu bwyd, rhaid gweithredu ar frys. Beth bynnag fydd yr heriau a wynebir gan y Deyrnas Gyfunol yn y blynyddoedd nesaf, mae'r tri mater hyn – Covid, yr hinsawdd a gwrthdaro – yn llawer rhy bwysig inni eu hanghofio.

Gydag ymrwymiad gwleidyddol go iawn yn y 12 mis nesaf, gallwn gyrraedd diwedd 2022 ar nodyn llawer mwy cadarnhaol na'r hyn a glywn ar ei dechrau.

ATGOFION AM ARCHESGOB DESMOND TUTU

Dyma ail ran yr erthygl hon gan y Parch Noel Davies.

Daeth tua 15,000 o bobl i ŵyl Teulu Duw yn Llanellwedd. Cawsom ein llethu (yn llythrennol ac yn emosiynol) gan yr ymateb.

Siaradodd yr Esgob Tutu yn huawdl ac yn deimladwy am y sefyllfa yn Ne Affrica mewn cyfarfod arbennig yn neuadd De Morgannwg ac yna pregethodd yn y gwasanaeth olaf yn y prif gylch. Ei destun oedd 'Nid yw'n dda i ddyn fod ar ei ben ei hun ...' (o Genesis 2.18). Mae Duw yn bwriadu inni berthyn i'n gilydd fel un ddnoliaeth, fel un teulu, fel teulu Duw. Rydym yn gwaedu gyda'n gilydd, yn dioddef gyda'n gilydd, yn sefyll gyda'n gilydd, yn ymdrechu am heddwch a chyfiawnder gyda'n gilydd, yn byw mewn cytgorod gyda'n gilydd, yn gobeithio gyda'n gilydd.

Gan ei bod wedi dechre bwrw glaw, fe ffeindiodd Jeff Williams ymbarél a'i dal dros ben yr Esgob a chael ei lun yn y Western Mail. Yn ôl Jeff, gallai deimlo egni'r traddodi grymus! Daeth y gwasanaeth i ben gydag 'Arglwydd y ddawns': 'Dawns, dawns ble bynnag yr ei di, cans "Fi yw Arglwydd y ddawns", medd ef'. Erbyn hynny roedd glaw wedi gwaethygu ac rwy'n dal i gofio'r Esgob Tutu (5 troedfedd 5 modfedd ohono) yn troitan o'r llwyfan bach yng nghanol y



cylch yn ôl i'w sedd yn yr eisteddle, wrth i'r gynulleidfa ganu, gan godi ei gasog porffor rhag iddo faglu wrth redeg, a'r dorf fawr yn ei glapio ar ei ffordd.

Gellimanwydd

Ar y dydd Sul, ar ôl treulio'r noson yn Nhŵr Trelái, gydag Esgob Abertawe ac Aberhonddu, yr Esgob B. N. Y. Vaughan, pregethodd mewn gwasanaeth a ddarlledwyd o Christian Temple (Gellimanwydd), Rhydaman, dan arweiniad y gweinidog, y Parchg Dewi Myrddin Hughes. Ar ôl y gwasanaeth aeth nifer ohonom am ginio bwffe yng nghartref Wendy a Peter Richards. (Wendy oedd fy ffrind a'm cydweithiwr yng Nghyngor Eglwysi Cymru a oedd wedi rhoi oriau lawer i drefnu'r digwyddiad y diwrnod cynt). Cyn y pryd bwyd fe wnaeth yr Esgob ein gwahodd

ni i gyd i ddal dwylo wrth iddo ddweud gras bwyd.

Abertawe

Yna dychwelodd yr Esgob Tutu i Abertawe gyda ni. Daeth ein ffrindiau, Jeff a Gill Williams, draw i'r tŷ gyda'r plant. Mae gennym ni lun ohonyn nhw gyda'r Esgob Tutu ar ein sofa (ond wnaethon ni ddim meddwl cael llun ohono gyda ni). Erbyn hynny roedd wedi blino'n lân, a chysgodd ar ein gwely sbâr am gyfnod cyn i ni adael am y maes awyr. Yna, gyrodd Pat a minnau ef yn ôl i westy yn Heathrow. Eisteddodd yn sedd gefn y car, darllenodd ei Feibl, offrymodd ei weddïau dyddiol ac yna cyrliodd i fyny ac aeth i gysgu! Pan gyrhaeddodd ni'r gwesty aethon ni ag ef i'w ystafell, lle roedd bowlen o ffrwythau. Cymerodd ffrwyth mefus a'i bwydo i geg Pat cyn i ni adael a gyrru adref.

Roedd ganddo bersonoliaeth fyrlymus, fywiog a hwyliog; roedd yn ddyn o ffydd ac ysbrydolrwydd dwfn, gyda gweledigaeth o fyd wedi'i drawsnewid a'i adnewyddu, a gysegrodd ei fywyd i geisio heddwch, cyfiawnder a chymod yn Ne Affrica a thrwy gydol y byd. Dyn bychan ydoedd ond roedd yn dyst gwirioneddol enfawr a byd-eang i'r Efengyl. Diolchwn i Dduw amdano. Boed i dangnefedd Duw fod gyda phawb oedd yn ei garu.

Noel Davies

Yr Adran Gydenwadol

Tynnu sylw at y 50 lle mwyaf peryglus i Gristnogion

Affganistan bellach yw'r lle mwyaf peryglus yn y byd i fod yn Gristion, yn ôl adroddiad newydd a ryddhawyd yr wythnos diwethaf.

Daeth y cyhoeddiad gan y mudiad Open Doors UK wrth iddyn nhw lansio'i rhestr flynyddol, Rhestr Wyllo'r Byd, yn rhithiol i Aelodau Seneddol San Steffan. Galwyd ar yr Aelodau Seneddol i gadw'r mater gerbron y Senedd yn gyson ac i weithredu ar eu hymrwymiad dros ryddid pobl i lefaru ac i gredu.


Mae erledigaeth yn real iawn i un ym mhob saith Cristion yn y byd ac ar gynydd bob blwyddyn. Yn y gorffennol, yr arfer oedd rhestru'r hanner cant o wledydd lle roedd y perygl oddi wrth erledigaeth yn amrywio o fod yn 'ddifrifol iawn' i 'uchel'. Bellach, gyda 360 o filiynau o Gristnogion yn cael eu heffeithio ledled y byd, mae'r holl wledydd ar y rhestr yn cael eu dynodi fel rhai lle mae lefel y perygl i Gristnogion yn 'uchel iawn' neu'n 'ddifrifol'.

Fe gymerodd Affganistan le Gogledd Korea ar y rhestr yn ystod 2021 – gwlad sydd wedi bod ar frig y rhestr ers ugain mlynedd, er bod erledigaeth wedi cynyddu yno eleni hefyd.

Adroddodd Henrietta Blyth, Prif Swyddog Gweithredol Open Doors yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, fod eithafwyr Islamaidd yn Affganistan bellach 'yn hela Cristnogion' er mwyn eu gwaredu o'r wlad. Dydy'r sefyllfa fawr gwell yn y gwledydd o gwmpas yr ardal chwaith, gyda Christnogion sydd wedi ffoi yn parhau yn fregus eu hamgylchiadau yn yr holl wledydd o gwmpas Affganistan.

Un o brif ganfyddiadau'r adroddiad yw fod yr eglwys a Christnogion ar draws y byd yn cael eu dadleoli ac felly'n troi'n ffoaduriaid, gan ychwanegu at eu sefyllfa fregus. Wrth i bobl ffoi rhag trais dan law eithafwyr, mae argyfwng ffoaduriaid / pobl wedi eu dadleoli yn datblygu ar raddfa eang. Mae llawer o Gristnogion sy'n ffoi rhag erledigaeth ymhlith yr 84 o filiynau o bobl

Y 50 gwlad uchaf ar Restr Wyllo'r Byd Open Doors yn 2022



yn y byd sydd wedi eu gorfodi o'u cartrefi (Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid, 2021).

Ar gyfandir Affrica islaw'r Sahara, mae jihadiaeth yn bygwth dadsefydlogi'r ardal gyfan gan greu argyfwng dyngarol eang. Wyneba Cristnogion sydd wedi eu dadleoli yn Syria, Irac, Lebanon a Gwlad yr Iorddonen sefyllfa lle ceir gwahaniaethu yn eu herbyn. Caiff Cristnogion hefyd eu gosod mewn perygl enbyd wrth iddyn nhw gael eu gorfodi i ddychwelyd i'r wlad y bu iddyn nhw ffoi ohoni. Yn Myanmar, mae 200,000 o Gristnogion wedi eu dadleoli ac 20,000 wedi ffoi o'r wlad.

Wrth gloi ei chyflwyniad i Seneddwyr San Steffan, ychwanegodd Henrietta Blyth: 'Yr allwedd [i helpu i ddiogelu Cristnogion sy'n cael eu herlid] yw fod rhyddid crefydd a chred yn cael ei ddyrchafu a'i gynnal ym mhob gwlad o gwmpas y byd.

'Mae ein llywodraeth wedi dweud eu bod yn awyddus i godi achosion o hawliau dynol fel rhan o'u polisi tramor a thrafodaethau masnach, ac rydym am weld eu bod yn cadw at yr ymrwymiad hwnnw.'

Ein Tad Nefol,

Wyla ein calonnau wrth inni glywed am yr erledigaeth gynyddol y mae ein brodyr a'n chwiorydd yn ei hwynebu. Yrydym yn erfyn arnat ar eu rhan.

Annog nhw yn eu ffydd, nertha nhw i sefyll yn gryf a grymusa nhw yn eu bywyd a'u tystiolaeth.

Diogela nhw rhag niwed a thyrd ag iachâd i bawb sydd ei angen heddiw.

Bydded i lawer mwy wybod am eu hamgylchiadau, gan gynnwys y rheiny sydd â grym yn eu dwylo a all ddefnyddio'u dylanwad er mwyn dod â newid er daioni iddyn nhw. Amen.

Gweddi gan Open Doors

I ddarllen yr adroddiad cyflawn i'r Senedd ac enwau'r 50 o wledydd ar Restr Wyllo'r Byd gan Open Doors, ewch i'w gwefan: <https://www.opendoorsuk.org/resources/world-watch-list/>

Edrychwn ymlaen at weld yr adnoddau yn Gymraeg ar y we yn fuan.

Adnoddau gwerthfawr

Ers dechrau'r pandemig, rydym fel criw o weithwyr a gweinidogion o ogledd-orllewin Cymru wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol dros Zoom. Mae'r amser yma gyda'n gilydd ar fore Llun wedi bod yn ffordd fendithiol o weddio ac annog ein gilydd. Mae hefyd wedi bod yn gyfle i ystyried rhai adnoddau gwahanol a all fod o gymorth i ni a'r rhai rydym yn eu gwasanaethu.



Gwaith [Simone Martini](#),
Casgliad Samuel H. Kress (NGA)

Un o'r adnoddau gwerthfawr hynny rydym wedi cael blas arno yn ddiweddar yw'r gyfres o astudiaethau beiblaidd sydd wedi cael ei pharatoi gan fudiad o'r enw CBS (Community Bible Study). Erbyn hyn mae astudiaethau ar dri llyfr o'r Beibl wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Rydym eisoes wedi mynd trwy lythyr Iago a llyfr Ruth, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn gwneud ein ffordd trwy Efengyl Marc!

Mae gan CBS ddull neilltuol o astudio'r Beibl i hwyluso darllen ac ymgodymu â'r testun. Cyn yr astudiaeth, ceir cwestiynau dyddiol i'ch cynorthwyo i fyfyrto ar y testun ymlaen llaw fel ffordd o baratoi ar gyfer y drafodaeth gyda'r grŵp. Yn y nodiadau ceir cydbwysedd da rhwng egluro cyd-destun y darlleniad ar un llaw a chwestiynau sydd yn gwneud i rywun feddwl mwy ynglŷn â sut i gymhwyso'r neges i fywyd bob dydd.

Dyma flas ar y math o gwestiynau mae'r nodiadau'n eu codi:

- Pa ddau fath o ddoethineb sy'n cael eu cyflwyno yn Iago 3:13-16? Beth sy'n dangos gwir ddoethineb?
- Wyt ti'n gofyn i Dduw bob dydd am ei ddoethineb? Pam neu pam ddim?

Beth am roi cynnig ar ymuno neu ddechrau astudiaeth yn eich ardal chi? Mae modd cael ragor o wybodaeth am yr adnoddau Cymraeg sydd ar gael drwy gysylltu â mi (alun.thomas@ebcpcw.org.uk) ac fe geisïaf eich rhoi ar ben y ffordd!

*Alun Morton Thomas
Cynorthwydd Gweinidogaethol
Gofalaeth Bro Llanfair-pwll a'r Cylch*

Ffydd yn y dyfodol: Eglwysi a Chapeli yng Nghymru



Llun: Yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol

Taith o amgylch Eglwys Mallwyd, ger Machynlleth, cartref Dr John Davies, diwygiwr y Beibl Cymraeg.

Mae'r Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol (NCT) a Fforwm Addoldai Cymru (y mae Cytûn a llawer o'n haelod eglwysi yn rhan ohono ac wedi gwneud ceisiadau am gymorthdaliadau ganddynt) yn trefnu tair seminar Ffydd yn y Dyfodol

- adeiladu cysylltiadau ac ymgysylltu â chymunedau ar 15 Chwefror am 1.30yp
- ffyrdd arloesol o godi arian ac incwm ar 8 Mawrth am 1.30yp
- ymateb i her newid hinsawdd ar 29 Mawrth am 1.30yp

Mae pob gweminar yn rhad ac am ddim.

Cofrestrwch ar [EventBrite](#)

Bydd pob seminar yn gyfle i glywed gan arbenigwyr yn y sector, gyda'r ymchwil a'r cyngor diweddaraf. Yn bwysicach, byddwn hefyd yn clywed gan wirfoddolwyr mewn prosiectau gwych ac enghreifftiau o arfer gorau mewn eglwysi, capeli a manau addoli eraill. Rydym yn edrych ymlaen at glywed eich ymateb i'r trafodaethau a bydd yr adborth a roddwch yn helpu i lywio gwaith Fforwm Addoldai Cymru yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn eich annog i rannu syniadau a chwestiynau gyda gwirfoddolwyr o eglwysi, capeli a manau addoli eraill sy'n cymryd rhan yn y sgwrs.

(Addaswyd o [Fwletin Polisi Cytûn](#) Chwefror / Mawrth 2022)



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 6 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

Cyfle i ailglywed rhaglen lle mae Rhian Williams yn trafod dylanwad Beethoven a Mendelssohn ar ein hemynyddiaeth.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 6 Chwefror am 12:00yp

Gwasanaeth yng ngofal Carys Hamilton, Cwm-ann

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 6 Chwefror, am 7:30yh (ailddarlledir am 11:30yh y Sul canlynol)

Ar ddechrau tymor Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, cawn fwynhau emynau cyfarwydd sy'n ffefrynnau ar y meysydd rygbi ar hyd a lled Cymru, a chawn ddatganiad hyfryd o emyn gwladgarol mawr Lewis Valentine, 'Dros Gymru'n Gwlad' gan Angharad Brinn.

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

Rhoi theori ar waith

13 Heddwch, cyfiawnder a gwleidyddiaeth

Darlenn: Eseia 42:1-7

“Dyma fy ngwas, yr wyf yn ei gynnal, f'etholedig, yr wyf yn ymhyfrydu ynddo. Rhoddais fy ysbryd ynddo, i gyhoeddi barn i'r cenhedloedd.

...

I agor llygaid y deillion, i arwain caethion allan o'r carchar, a'r rhai sy'n byw mewn tywyllwch o'u cell.” (adn 1,7)

Cri gyffredin yw gwaedd ingol plentyn ifanc yn dweud, ‘Dydy hi ddim yn deg!’ Ac mae'n ein hatgoffa bod gennym ni synnwyr cynhenid o gyfiawnder yn rhan ohonom o'n blynyddoedd cynnar, a pha mor bwysig yw cael ein trin yn gyfartal. Yn wir, mae ein bywydau cyfan yn dibynnu arno. Disgwyliwn gyfradd deg o gyflog am y gwaith a wnawn, a chymerwn yn ganiataol na fyddwn yn cael ein harestio dim ond am yrru i lawr y ffordd. Pan fydd y pethau hyn yn mynd o chwith, caiff rhywbeth dwfn y tu mewn inni ei anesmwytho. Ymateb i'r synnwyr yma o anghyfiawnder y mae pobl ifanc ddu sy'n cwyno am y nifer anghymesur o weithiau y cânt eu stopio ar y stryd gan yr heddlu, fel y mae'r rheiny y mae eu cyflog yn cael ei gapio'n ymateb wrth weld cynffonnau moch tew yn cael eu hiro wrth dderbyn miliynau. Mae cyfiawnder yn argyhoeddiad dynol dwfn a sefydlog, am ei fod yn adlewyrchiad o gymeriad Duw ei hun. Mae'r Salmydd yn ysgrifennu, ‘Y mae'n caru cyfiawnder a barn’ (Salm 33:5).

Ceir cysylltiad annatod rhwng heddwch a chyfiawnder. Mae angen cyfiawnder er mwyn i heddwch ffynnu, ac i'r gwrthwyneb ni all fod cyfiawnder heb heddwch. Cyn y Nadolig, fe edrychon ni ar yr adnod gyfarwydd, ‘Canys bachgen a aned i ni ... ac fe'i gelwir ...Tywysog Tangnefedd’ (Eseia 9:6). Fel hyn mae'r adnod nesaf yn dilyn:

Ni bydd diwedd ar gynnydd ei lywodraeth, nac ar ei heddwch i orsedd Dafydd a'i frenhiniaeth, i'w sefydlu'n gadarn â barn a chyfiawnder, o hyn a hyd byth. (Eseia 9:7)

Felly, bydd heddwch diddiwedd y deyrnas hon yn cael ei sefydlu gyda chyfiawnder a barn. Os felly, beth mae cyfiawnder yn ei olygu mewn gwirionedd?

Yn Eseia 42:1-7, fe gawn ni'r gyntaf o bedair cân y gwas, fel y'u gelwir, sy'n sôn am y Meseia sydd i ddod. Yn y broffwydoliaeth ddigamsyniol hon, dywedir wrthym fod Duw yn ymhyfrydu ynddo (adn 1), ei fod yn addfwyn yn ei gymeriad a'i leferydd (adn 2-3) ac ‘ni fydd yn diffodd, ac ni chaiff ei ddrilho, nes iddo osod barn ar y ddaear’ (adn 4, pwyslais wedi ei ychwanegu). Mae'r adnodau hyn yn cael eu cymhwysu'n uniongyrchol at Iesu yn Mathew 12:15-21.

Yn yr adnodau hyn, felly, nod y Meseia sydd i ddod, y Tywysog Tangnefedd, yw dwyn cyfiawnder i'r ddaear. Cofiwch, heb gyfiawnder ni all fod heddwch; felly, os heddwch yw'r nod, cyfiawnder yw'r modd. Ychydig o adnodau yn ddiweddarach, mewn darn wedi'i gyfeirio at y gwas sydd i ddod, caiff cyfiawnder ei ddarlunio fel hyn:

“lluniais di a'th osod yn gyfamod pobl, yn oleuni cenhedloedd; i agor llygaid y deillion, i arwain caethion allan o'r carchar, a'r rhai sy'n byw mewn tywyllwch o'u cell.” (Eseia 42:6-7)

Yma gwelwn natur ymarferol iawn cyfiawnder. Bydd Iesu, y Tywysog Tangnefedd, yn oleuni i'r cenhedloedd, yr hwn a fydd yn goleuo'r ffordd adref i le diogel, fel y gwelir pan ddywed Iesu amdano'i hun, ‘myfi yw goleuni'r byd’ (Ioan 8:12). Dywedir wrthym y bydd y Meseia yn dod â chyfiawnder trwy agor llygaid y deillion, geiriau y gellir eu cymryd yn ffigurol ac yn llythrennol.

Yn ffigurol, mae dallineb i Dduw yn cael ei ddefnyddio i siarad am yr angen sydd gennym am gyfarfyddiad â Duw. Mae'r apostol Paul yn defnyddio'r ddelwedd fel hyn wrth ysgrifennu at y credinwyr Iddewig yn Rhufain: ‘Amdanat ti, fe ddichon dy fod yn cario'r enw “Iddew” ... Fe ddichon dy fod yn argyhoeddedig dy fod yn arweinydd i'r dall, yn oleuni i'r rhai sydd mewn tywyllwch ... Os felly, ti sy'n dysgu arall, oni'th ddysgi dy hun?’ (Rhufeiniaid 2:17-21).

Yn amlwg, mae'n siarad am ddallineb ysbrydol. A chyn i ni lithro i ystrydebau diog am y rhai o grefyddau eraill ‘mewn tywyllwch’, efallai y gallem ystyried y gellid dadlau bod pobl o greddau arall yn llai dall na llawer yn y gorllewin seciwlar nad ydynt yn arddel unrhyw ffydd. Ac a ydym yn hyderus nad ydym ninnau, sydd wedi dod i ffydd, yn ddall ein hunain? I anghenion ein

cymdogion? I'r blaenoriaethau rydyn ni'n eu dilyn mewn bywyd? Gadewch inni fod yn araf i farnu (Rhufeiniaid 2:1).

Ond, o blith y gwyrthiau niferus a wnaeth Iesu, rhoddodd hefyd olwg corfforol i'r ddall, yn arwydd o'r deyrnas i ddod, lle na fyddai afiechyd a marwolaeth mwyach. Mater o gyfiawnder yw iacháu'r claf, yn enwedig mewn byd lle gellir gwella cymaint o afiechydon am werth ychydig o geiniogau o frechlyn imiweiddio i blant.

Mae synnwyr tebyg i ddod â charcharorion allan o dywyllwch. Gellir ei ddehongli'n llythrennol, ac mewn byd lle mae charcharorion mewn llawer o wledydd bron cystal â bod yn cael eu hanghofio, a'r allwedd yn cael ei thafllu i ffwrdd, yn gorfod goroesi dan amodau ffaidd, mae dod â gobaith hyd yn oed i'r rhai sy'n euog yng ngolwg y gyfraith yn atseinio trugaredd Duw maddeugar. Ond mae dimensiwn arall i garcharu, oherwydd tlodi yw'r cyfyngwr mwyaf ar ryddid yn unrhyw le yn y byd. Mae'r Salmydd yn glir: ‘Gwn y gwna'r ARGLWYDD gyfiawnder â'r truan, ac y rhydd farn i'r anghenus.’ (Salm 140:12) Caiff cannoedd o filiynau o bobl heddiw eu carcharu gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Fe'u genir yn dlawd ac maent yn methu dianc rhag tlodi, oherwydd mae'r cardiau wedi eu pentyrru yn eu herbyn. Yn y cyfamser, mae'r rhai ohonom sy'n well ein byd yn gallu cynyddu ein cyfoeth dim ond oherwydd bod gennym ni gyfoeth i ddechrau. Golygai'r bywyd teuluoel a gefais i yn fy mhientyndod cynnar, ynghyd ag addysg ragorol, y gallwn i ffynnu, cael swydd dda ac, ymhen amser, prynu tŷ, sydd yn ei dro wedi cynyddu yn ei werth lawer gwaith yn fwy na beth dalais i amdano. Mae pobl mewn tlodi yn aml yn cael trafferth yn addysgol, ac felly mae eu plant yn gwneud yr un peth. Ar y pen eithafol, mae miliynau o blant yn rhoi'r gorau i'r ysgol oherwydd bod angen iddynt weithio i gefnogi eu teuluoedd, a'r cylch o dlodi yn parhau.

A yw'r rhain yn faterion sy'n perthyn i'r efengyl? Ydyn! Maen nhw'n faterion sy'n perthyn i'r efengyl oherwydd eu bod yn faterion y deyrnas, oherwydd eu bod yn ymwneud â ffyniant dynol – addysg fel llwybr allan o dlodi; gofal meddygol fel drws i lesiant; swyddi a chyfleoedd fel dathliad o'r galluoedd y mae Duw wedi eu rhoi inni. Hyd yn oed yn ein gofal a'n cymorth i'r henoed, y claf neu'r anabl, ein nod yw bod pawb yn byw gydag urddas ac nad ydynt yn cael eu mesur yn ôl rhyw ddangosydd o werth economaidd.

Mae efengyl heddwch, hyrwyddo cyfiawnder a'r wleidyddiaeth sy'n siapio ein byd – wedi eu cydblethu i gyd a phob un ymhlyg yn y bywyd o ffydd y byddwn yn ei fyw fel Cristnogion.

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru


(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

SIGL A CHRAIG A'R GRAIG DDISIGL

Ar 10 Ionawr bu farw Burke Shelley, Cymro o Tiger Bay Gaerdydd, oedd ymysg cewri'r byd roc ac yntau 71 mlwydd oed. Yn wir, mae'n amhosib gorbwysleisio ei ddylanwad ac yntau'n un o sylfaenwyr y band Budgie. Dyma fand a sefydlwyd yn y brifddinas ym 1967 ac yn ôl y rocyr 'I loved the idea of playing noisy, heavy rock, but calling ourselves after something diametrically opposed to that.'



Mae nifer o gerddorion gwych wedi bod yn aelodau Budgie, gan gynnwys Myfyr Isaac, ond Burke oedd y llinyn arian oedd yn cynnal y weledigaeth o fand metal oedd ymysg y trymaf ohonynt i gyd. Roedd gan Budgie bopeth, y curiad trwm, y cloriau recordiau trawiadol, melodïau cofiadwy, sawl ennyd o dynerwch a theitlau ar ganeuon fyddai'n codi gwên: 'Hot as a Docker's Armpit'; 'In the Grip of a Tyrefitter's Hand'; 'You're the Biggest Thing Since Powdered Milk' a'r gân amserol iawn: 'If I was Britannia I'd Waive the Rules!'



Dylanwadol

Mae bandiau byd-enwog megis Soundgarden, Van Halen, Megadeth ac Iron Maiden yn ystyried Burke Shelley yn ddylanwad anferthol arnynt a phan aeth Ozzy Osbourne ar daith chwedlonol The Blizzard of Ozz o Fedi 1980 hyd Fedi 1981 – Budgie oedd y band deithiodd o gwmpas Ewrop gydag Ozzy. Dyma gyfnod pan fuont yn brif atyniad Gŵyl Reading, prif gynulliad roc trwm, ar ddau achlysur!

Beibl

Fodd bynnag, doedd Burke ddim yn gwbl gyfforddus yn y byd hwnnw a bu iddo fynegi hynny yn y rhaglen ddogfen *Heavy Metal Britannia* yn 2010. Ym 1980, ac yntau'n ymarfer yn Birmingham gyda chydaelod o Budgie 'Big' John Thomas, cerddodd mewn i siop lyfrau ail-law a phrynu copi o'r Beibl oedd wedi ei argraffu ar gyfer milwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Holodd y wraig os oedd wedi 'ei achub' ac yntau dweud nad oedd yn gwybod ond ei fod yn fwy na bodlon iddi weddïo drosto. O hynny ymlaen roedd y Beibl hwnnw ganddo ar ei deithiau a daeth i'r bywyd dan weinidogaeth y Parchedig Geraint Fielder. Yn ôl Burke, roedd clywed y bregeth a myfyrio ar eiriau'r Beibl wedi gwneud popeth yn glir, 'the penny dropped, everthing fell into place.'

Sicrwydd

Cafodd gyfnodau o salwch dros y degawd diwethaf ond roedd ei ffydd y ei gynnal, 'I've got faith in God and have no worries about where I'm going. So I'll just go when He decides to take me and, in the meantime, I'll carry on doing what I want to do. Simple as that.' Mewn cyfweiliad arall dywedodd, 'I'm not frightened of dying, I know where I'm

Allweddeiriau 4 Cred

Gair sy'n ymddangos yn gyson yn y Beibl yw 'credu'. Yn wir, pan mae ceidwad carchar Philipi yn gofyn i Paul a Silas, 'Beth sy raid imi ei wneud i gael fy achub?' Eu hateb yw: 'Cred yn yr Arglwydd Iesu, ac fe gei dy achub ...' (Actau 16:31). Ond beth mae'n ei olygu i 'gred' yn Iesu?


Cyfieithiad Cymraeg o'r ferf Roeg pistewo yw 'credu'. Mae'r gair hwn yn golygu rhoi ein ffydd yn rhywun, ymddiried yn rhywun, neu – i ddefnyddio'r ymadrodd Saesneg – trystio rhywun.

Nid yw'r rhain yn syniadau diarth. Rydym yn gyfarwydd â'r uchod gan ein bod yn ymddiried ym mhobl eraill yn ddyddiol. Yn wir, rydym yn 'ymddiried' yn ein ffrindiau gorau ac mae gennym 'ffydd' yn ein doctoriaid meddygol.

Felly, pan mae'r Beibl yn dweud wrthym i 'gred' yn Iesu, mae'n dweud wrthym i ymddiried ynddo a'i drystio fel Mab Duw sydd wedi marw drosom ar y groes ac atgyfodi ar y trydydd dydd. Yn ôl y Beibl, dyma beth mae'n ei olygu i 'gred' yn Iesu Grist. Yn Ioan 3:16, cawn ein hatgoffa pa mor dyngedfennol yw 'credu' ynddo:

'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.' (Ioan 3:16)

Gwilym Tudur



going. I want to spend my eternity with Jesus Christ in Heaven'. Mewn sylw nodweddiadol o hiwmor ei ganeuon dywedodd na fyddai am i neb frwydro i'w gadw'n fyw, 'Let me go mate! Give somebody else my bed!'

Rocyrr arall sydd wedi ein gadael ond gyda'i ffydd yn disgleirio trwy ei ddiodefaint.

Dilwyn Roberts

Barn Annibynnol

Hawl i fyw!

Mae rhai o'r penawdau newyddion a welwyd ym mis cyntaf y flwyddyn, wrth i'r pandemig ddechrau cilio, yn peri gofid, rhaid dweud.



- **'Rhoi'r gwres ymlaen am awr pan mae'r wyrion yn dod!'** yw un pennawd. Mae Sefydliad Bevan yn amcangyfrif bod traean o deuluoedd Cymru yn cwtogi ar eu defnydd o ynni tra bo eraill yn bwyta llai o fwyd yn sgil costau byw uwch. Dywed ymgyrchwyr eu bod yn poeni y bydd safonau byw ac iechyd nifer yn gostwng. Mae'r elusen yn credu y bydd effaith y pandemig yn achosi i 40,000 o aelwydydd wynebu tlodi. Roedd yna chwarter o deuluoedd Cymru yn byw mewn tlodi cyn y pandemig, medd pennaeth polisi Sefydliad Bevan.
- **'Cynnydd biliau ynni i 'beryglu' iechyd a lles pobl hŷn'** yw pennawd arall. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn rhybuddio y gallai cynnydd mawr mewn biliau ynni olygu y bydd rhai pobl yn gorfod dewis rhwng pryd da o fwyd neu wresogi eu cartrefi.
- **'Tlodi mislif yn dal yn "broblem enfawr" yng Nghymru'** medd pennawd pellach. Yn ôl un o gynghorwyr Gyngor Rhondda Cynon Taf, mae'r tlodi hwn yn cael effaith 'anferth' ar addysg merched, gyda rhai yn penderfynu aros gartref yn lle mynd i'r ysgol.

Tlodi Cymru

Cyfeirio mae'r penawdau hyn at sefyllfa tlodi yng Nghymru'n unig, gwlad sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig – uned gyfoethog iawn. Mae tlodi, wrth gwrs, yn broblem i ryw raddau ym mhob gwlad yn y byd ond ar ei waethaf a'i amlycaf yn y byd sy'n datblygu neu'r 'trydydd byd'. Nid hawdd yw gosod rheswm am hyn bob tro ond mae'r ffactorau'n cynnwys hinsawdd anodd a thrychinebau naturiol, ond hefyd, yn anffodus, fasnach annheg, dyled, rhyfel, llygredd a phrinder addysg a'r ffordd y bydd adnoddau'n cael eu rhannu.

Hawliau dynol

Ychydig cyn troad y flwyddyn, buom yn dathlu Diwrnod Hawliau Dynol. Hawliau dynol yw'r hawliau a rhyddidau sylfaenol sy'n eiddo i bob person yn y

byd, o enedigaeth tan farwolaeth. Maent yn gymwys i bawb, heb ystyried o ble rydych yn dod, yr hyn rydych yn ei gredu neu sut rydych yn dewis byw eich bywyd. Ni ellir eu tynnu byth, er gallant gael eu cyfyngu ar brydiau – er enghraifft os yw person yn torri'r gyfraith, neu er budd diogelwch cenedlaethol. Mae'r hawliau sylfaenol hyn wedi'u seilio ar werthoedd fel urddas, tegwch, cydraddoldeb, parch ac annibyniaeth.

Confensiwn Ewropeaidd

Ond dyw hawliau dynol ddim yn gysyniadau haniaethol yn unig – maent yn cael eu diffinio a'u diogelu gan y gyfraith. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r hawliau a gyflwynir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith domestig Prydain. A chorff sy'n hybu a chynnal delfrydau cydraddoldeb a hawliau dynol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban yw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Fe'i sefydlwyd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Mae'n gorff annibynnol a helpu i wneud Gwledydd Prydain yn decach yw ei nod. Gwnaeth y Comisiwn waith pwysig wrth alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddangos arweinyddiaeth yn COP26 drwy wneud ymrwymadau penodol i amddiffyn hawliau dynol yn well yng nghyd-destun newid hinsawdd.



Anghyfartaledd

Yn un o'i bapurau mae'r comisiwn yn sylwi ar effaith anghyfartal Covid-19 ar bobl hŷn a phobl anabl, rhai lleiafrifoedd ethnig, rhai menywod a phobl yn byw dan anfantais cymdeithasol-economaidd. Mae'n gyfrwng i sicrhau nad ydym yn anghofio'r bobl hynny yr effeithir arnynt gan yr argyfwng yn fwy nag eraill. Yn anffodus, mae camwahaniaethu yn parhau i ddigwydd yn ein byd ni a bod rhai pobl mewn rhai gwledydd yn fwy ffodus nag eraill. Mae'n rhaid i ni sefyll lan dros ein hawliau ein hunain a phobl eraill a gwybod mai byd teg yw byd lle mae gan bawb hawliau dynol a'u bod yn gallu parhau i wneud cynnydd wrth geisio diogelu cenedlaethau'r dyfodol a'u hawliau nhw fel pobl.

Cofiw'n nyddiau cynnar y flwyddyn newydd, a phob amser yn wir, nad oes hawliau gennym oherwydd ein bod yn eu haeddu, nac ychwaith oherwydd ein bod wedi'u hennill neu oherwydd ein

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg Cyrsgiau'r Gwanwyn

**Darllen, deall a dehongli
Gair Duw heddiw**

**Astudio'r Beibl yn ein
cyd-destun ni**

**7 o'r gloch, nos Lun 7 Mawrth -
Testament Newydd y Beibl
CATRIN HAF WILLIAMS,
Diwinyddiaeth ac Astudiaethau
Crefyddol, PCYDDES**

**Dirnad a datblygu doniau yn
ein heglwysi**

**7 o'r gloch, nos Lun 14 Mawrth
BETI-WYN JAMES, Caerfyrddin**

**7 o'r gloch, nos Fawrth 22 Mawrth
ALUN TUDUR, Caerdydd**

**CWRS DEHONGLI'R
YSGRYTHURAU**

Yr Actau a'r Epistolau

**7 o'r gloch, nosweithiau Mercher
gan ddechrau 16 Chwefror
ALED JONES, Cyfarwyddwr a
Chydydd Hyfforddi'r Coleg**

Croeso cynnes iawn i bawb

Bydd pob cwrs ar-lein eleni

**Manylion pellach a dolenni
Zoom oddi wrth**

aled@colegyrannibynwyr.cymru

Coleg yr Annibynwyr

Cynhelir cyfarfod Tanysgrifwyr Coleg yr Annibynwyr Cymraeg am 2.00 y.p. dydd Llun 14 Chwefror ar Zoom. Os hoffech gael y ddolen cysylltwch gyda'r Parch. Trefor Jones-Morris trwy:
jonesmorrist@gmail.com

bod yn wyn neu'n ddu, yn wryw neu'n fenyw. Mae hawliau gennym gan fod pob un ohonom wedi'i greu ar ddelwedd Duw a hynny'n rhoi gwerth ac urddas inni i gyd o'r herwydd. Mae angen parchu hyn. Mae gan bob un hawl i fyw!

R. Alun Charles

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddi yr Adran Gydenwadol
gan Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

PLANT NEU PWDL?

*Mae pobl sy'n dewis cadw anifeiliaid
anwes yn hytrach na chael plant yn
hunanol iawn, yn ôl y Pab Ffransis.
'Mae'n haws creu perthynas emosïynol
gydag anifail na magu plentyn,' meddai.*



Roedd y Pab yn ymateb i'r newyddion
bod gostyngiad mewn genedigaethau ar
draws y byd. Yn ei farn ef, mae hyn yn
duddiad drwg. Ond mae ei sylwadau
wedi creu syndod. Wedi'r cwbl, onid
yw'n dwyn enw Ffransis o Asisi,
nawddsant anifeiliaid?

Mae sawl Pab wedi cadw anifeiliaid
anwes yn y gorffennol. Er enghraifft,
roedd mwnci gan Pawl II, eryr gan
Sixtus IV, a nifer o greaduriaid gan
gynnwys llewod, eirth ac eliffant gan
Leo X.

Llai yn cael eu geni

Oes lle gan y Pab i boeni, felly? Yn
1950, roedd 2.5 biliwn o bobl yn byw yn
y byd. Erbyn hyn, mae bron i bod 8
biliwn ohonom ni. Mewn geiriau eraill,
mae'r boblogaeth wedi treblu yn ystod
oes llawer ohonom.

Ond mae canran y twf wedi syrthio o
+2.2% yn 1970 i +1% y llynedd. Bu
gostyngiad go iawn ym mhoblogaeth 25
allan o'r 250 o wledydd sy'n cael eu
cydnabod gan y Cenhedloedd Unedig.
Mewn geiriau eraill, roedd mwy yn
marw neu'n ymfudo nag oedd yn cael eu
geni yn y gwledydd hynny. Eto,
rhagwelir y bydd poblogaeth y byd yn

cynyddu'n raddol i 10 biliwn erbyn
diwedd y ganrif hon – heblaw bod rhyw
drychineb fawr yn digwydd.

Atal cenhedlu

I ddod 'nôl at sylwadau'r Pab.
Ymatebodd sawl un ar y cyfryngau
cymdeithasol trwy holi 'Pwy yw e i
ddweud hyn, gan nad yw'n briod na
phlant ganddo?' Mae'r Eglwys Gatholig
yn dal i wahardd clerigwyr rhag priodi –
a chael plant, wrth gwrs. Yn hanesyddol,
ni fu hyn yn rwystr i ambell Bab. Er
enghraifft, cafodd y Pab Alexander VI
(yn y *llun*) o deulu gwaradwyddus
Borgia, nifer o blant yn dilyn perthynas
gyda chwech o fenywod o leiaf.



Anodd ysgaru sylwadau'r Pab oddi wrth
safiad ei enwad ar ddefnyddio dulliau
artiffisial o atal cenhedlu, sy'n cael eu
hystyried yn bechod – safiad gafodd ei
gadarnhau gan Pawl VI yn 1968. Mae
miliynau o aelodau mewn eglwysi
Catholig yn dewis anwybyddu'r
gorchymyn hwn. Ond gan fod y Pab
presennol yn poeni am y gostyngiad
mewn genedigaethau, siawns na welir
newid agwedd tuag at ddulliau atal
cenhedlu tra fod e'n y Fatican. Ac mae'n
debyg na fydd ganddo gi na chath
ychwaith, heb sôn am eliffant!

Ymddeoliad y Parchg Robin Wyn Samuel

Ar ddydd olaf
Ionawr eleni,
ymddeolodd Robin
o'i waith fel
Swyddog Adnoddau
a Chynnal yr Undeb,
swydd a ddaliodd ers
2015. Apwyntiwyd



ef yn wreiddiol i wasanaethu
cyfundebau ac eglwysi De Cymru ond
yn wyneb newidiadau o ran gweithwyr
ac amgylchiadau tu hwnt i'n rheolaeth
gwelwyd ymestyn ffiniau'r swydd yn
ddaearyddol ac yn weithredol.

Ymatebodd Robin i'r gofynion yn
ddiddig ac yn llawen a bu'n weithiwr
parod ei gymwynas a'i gyngor. Y mae
ganddo ddawn anghyffredin i lunio
gweddïau ac adnoddau defosiynol a
chafodd nifer o ddarllenwyr *Y Tyst* ac
ymwelwyr ein gwefan a'r cyfryngau
cymdeithasol fendith fawr o dderbyn
arweiniad Robin yn y cyfeiriad hwn.

Bu'n hyrwyddo'r Rhaglen Arloesi a
Buddsoddi ac mae gwerthfawrogiad
sawl eglwys fu dan ei gyfarwyddyd yn
dangos eto, ei allu fel arweinydd a
hwylusydd. Ef hefyd, fu'n tywys y
gweinidogion yn eu cyfarfodydd
rhithiol dros dymor y pandemig.

Braint yw cael diolch iddo am ei
waith cyson a gwerthfawr ac ar yr
achlysur hwn ddymuno iddo ef a Janet
flynyddoedd o ymddeoliad llawen a
llawn.

*ON Danfoner unrhyw ohebiaeth
cysylltiedig â'r Rhaglen Arloesi a
Buddsoddi at yr Ysgrifennydd
Cyffredinol yn Nhŷ John Penri,
Abertawe.*

Cywiriad

Yn rhifyn 4, 20 Ionawr 2022 o'r *Tyst* fe
ddywedwyd yn yr erthygl olygyddol
fod ymgynghoriad Llywodraeth
Cymru, sef, 'Cynllun Tai Cymunedau
Cymraeg' yn cau ar yr 22 Ionawr. Y
dyddiad cywir yw **22 Chwefror**. Felly
mae rhagor o amser i ni anfon ein
sylwadau. Ymddiheuriadau am y
camgymeriad.